# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 11.12.19 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Huw Davies (Cadeirydd), Ian Williams, Dylan Thomas, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Edwards, Geraint Micah, David Griffiths, John Griffiths,
Louise Hughes (Cynghorydd Sirol), Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** Dim

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13.11.19 fel rhai cywir.
   **Cynnig –** Kevin Goodchild **Eilio –** Keith Carroll **Arwyddwyd –** Huw Davies.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (13.11.19):**

   a) **Cyfethol Un Aelod Newydd –**
   Diolch i aelodau'r gymuned a ddangosodd diddordeb i gael eu cyfethol ar y Cyngor Cymuned.
   Aelodau'r Cyngor yn gytûn i bleidleisio drwy ddangos dwylo yn y cyfarfod, ag yn hapus i ddatgan fod Jenny Warne wedi ei chyfethol ar y cyngor cymuned. Gwahodd Jenny i'r cyfarfod nesaf.

   b) **Rhwystrau Diogelwch ger Friog –** diweddariad wedi ei dderbyn gan Sam Hadley, Network Rail
   **Penderfyniad ➞ gwahodd Mr Hadley i'r cyfarfod nesaf ym Mis Ionawr, i drafod ymhellach.**

   c) **Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016 –**
   Fel rhan o'r broses o gydymffurfio, mae i'r cyngor gofnodi'r hyn yr ydym yn gwneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn ein hardal ni, erbyn diwedd y flwyddyn.
   **Penderfyniad ➞ Adroddiad i gael ei wneud a'i rhoi ar wefan y Cyngor Cymuned cyn diwedd Rhagfyr 2019.**

   d) **Materion Cymunedol –**
   Ateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau fod y gwaith sydd angen eu wneud ar Rhiw Gwastadgoed ag ar y ffordd ger Rola, Llwyngwril i gael eu trefnu yn y dyfodol agos

5. **Gohebiaeth:**
   a) **Rhaglen Adnewyddu Pas Bws –** posteri a gwybodaeth i gael eu harddangos yn y pentref.
   b) **Parc Cenedlaethol Eryri – Tai Teg –** gwybodaeth i gael eu harddangos ar yr hysbysfwrdd.
   c) **Llywodraeth Cymru – Gwariant Adran 137 y Terfyn ar Gyfer 2020-21 = £8.32 am bob etholwr.**
   d) **Biniau Halen -** llythyr gan Gyngor Gwynedd yn gofyn os oes biniau halen angen ei llenwi cyn y tywydd oer?
   **Penderfyniad** ➞ Kevin Goodchild wedi cynnig edrych ag adrodd yn ôl.

6. **Materion Cynllunio: Dim.**

7. **Adroddiad Ariannol**: Adolygiad Ariannol wedi ei wneud.
Derbyniwyd Adroddiad Mis Tachwedd 2019 yn gywir.
**Cynnig –** Ian Williams **Eilio –** David Griffiths **Arwyddwyd –** Huw Davies.

   **a)** Siec 100763 - Swyddfa Archwilio Cymru = £261.90.
   **b)** Siec 100764 – G A Micah – torri'r llwybrau = £576.00.

   **c)** **Praesept 2020/21**
   Cais i'w gyflwyno i Gyngor Gwynedd cyn 24/01/19.
   Pawb yn cytuno i gadw'r Praesept yr un fath a llynedd = **£9,800.00.**
   Bydd yn cael ei dalu mewn dau randaliad o £4,900.00 ym Mis Ebrill ag Awst 2020.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Dim byd i adrodd.

10. **Unrhyw Fater Arall:**
   **a)** **Ceir yn parcio ar ochr y ffordd ag ar y palmentydd yn y pentref yn broblem ac yn beryglus -**
   amryw o gwynion wedi cael eu derbyn gan aelodau o'r gymuned ynglŷn â hyn …..
   **Penderfyniad** ➞ cysylltu â Heddlu Gogledd Cymru.
   **b)** **Tyrchod yn y Cae Chwarae -**
   Penderfyniad ➞ cysylltu â Stuart Messer eto am bris.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 08.01.2020 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd …………………………………………………………………………………………………… Dyddiad ………………………………**